

# MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL ATEGOL (MEMORANDWM RHIF 2)

## Y Bil Ffyniant Bro ac Adfywio

1. Gosodir y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog ("RhS") 29.2. Mae RhS 29 yn rhagnodi bod yn rhaid gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol (LCM), ac y caniateir cyflwyno cynnig cydsyniad deddfwriaethol gerbron Senedd Cymru os yw un o Filiau Seneddol y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at unrhyw ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru neu sy'n addasu'r cymhwysedd hwnnw.
2. Cyflwynwyd y Bil Ffyniant Bro ac Adfywio ("y Bil") yn Nhŷ'r Cyffredin ar 11 Mai 2022. Gosodais [LCM ar y Bil fel y'i cyflwynwyd ar 28 Medi](#) ac [LCM diwygiedig ar 25 Tachwedd](#).
3. Ar 16 a 18 Tachwedd, cyflwynodd Llywodraeth y DU welliannau ar gyfer eu hystyried yng nghyfnod adrodd Tŷ'r Cyffredin a ddechreuodd ar 23 Tachwedd gyda dyddiad eisteddiad arall i'w gyhoeddi. Roedd dau welliant yn effeithio ar ddarpariaethau yn y Bil fel y'i cyflwynwyd a ddaeth o dan gymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru. Mae trydydd gwelliant gan y llywodraeth yn gwneud darpariaeth sy'n dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru. Disgrifir eu heffaith ym mharagraffau x i x isod.
4. Fe welwch y gwelliannau a gyflwynwyd yn: <https://bills.parliament.uk/bills/3155/publications>. Ni chytunwyd arnynt eto. Y cymalau y cyfeirir atynt yn yr LCM ategol hwn yw'r rheini a geir yn y Bil fel y'i diwygiwyd yn y Pwyllgor Cyhoeddus ar 20 Hydref. Fe welwch y fersiwn hon o'r Bil yn: <https://bills.parliament.uk/bills/3155>

### Amcanion y Polisi

5. Mae Llywodraeth y DU wedi datgan mai ei hamcan o ran polisi yw gwrthdroi gwahaniaethau daearyddol rhwng rhannau gwahanol o'r DU drwy rannu cyfleoedd yn fwy cyfartal.

### Crynodeb o'r Bil

6. Noddir y Bil gan yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau.
7. Roedd y Bil a gyflwynwyd yn gwneud darpariaeth ar gyfer pennu cenadaethau ffyniant bro ac ar gyfer adrodd ar hynt y gwaith o wireddu'r cenadaethau hynny; mewn perthynas â democratiaeth leol; cynllunio gwlad a thref; Ardoll Seilwaith Cymunedol; gosod Ardoll Seilwaith; adroddiadau ar ganlyniadau amgylcheddol ar gyfer cydsyniadau a chynlluniau penodol; adfywio; prynu tir yn orfodol; gwybodaeth a

chofnodion sy'n ymwneud â thir, yr amgylchedd neu dreftadaeth; darparu bod trwyddedau palmentydd yn barhaol; llywodraethiant Sefydliad Brenhinol y Syrffewyr Siartredig; crwydraeth a chardota; ac at ddibenion cysylltiedig.

8. Fe welwch ragor o wybodaeth am y Bil yn yr LCM cyntaf a osodwyd <https://senedd.wales/media/5qdfx1u1/lcm-ld15356-e.pdf>

### **Y diweddaraf am y sefyllfa ers cyhoeddi'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol cyntaf a'r un diwygiedig.**

9. Gosodais LCM ar 28 Medi, yn seiliedig ar y Bil fel y'i cyflwynwyd i Senedd y DU (Tŷ'r Cyffredin) ar 11 Mai. Dywed yr LCM hwnnw mai barn Llywodraeth Cymru yw nad yw'n briodol delio â mwyafrif y darpariaethau, fel y'u drafftwyd pan gafodd ei gyflwyno, yn y Bil DU hwn. Nododd yr LCM hefyd rai meysydd y gellid ym marn Llywodraeth Cymru eu cefnogi a meysydd eraill y gellid ym ein barn ni eu cefnogi o'u gwella.
10. Yn eu llythyron ataf, y naill ar 1 a'r llall ar a 2 Tachwedd, gofynnodd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai (LGHC) a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad (LJCC) am ragor o wybodaeth ac eglurhad ar nifer o feysydd mewn perthynas â'r Bil ac ar safbwynt Llywodraeth Cymru. Awgrymodd yr LJCC y dylid gosod LCM i fynd i'r afael â'r sylwadau a godwyd.
11. [Cafodd LCM ei osod i fynd i'r afael â'r pwyntiau hyn ar 25 Tachwedd](#) . Roedd yr LCM diwygiedig yn seiliedig ar y Bil fel y cafodd ei gyflwyno.

### **Gwelliannau a gyflwynwyd i'r Bil i'w hystyried yng Ngham Adrodd Tŷ'r Cyffredin na fydd angen cydsyniad arnynt mwyach**

12. Ar 16 a 18 Tachwedd, cyflwynodd Llywodraeth y DU sawl gwelliant gan y llywodraeth i'r Bil ar gyfer eu ystyried yng nghyfnod Adrodd Tŷ'r Cyffredin.
13. Mae gwelliannau canlynol y llywodraeth yn effeithio ar ddwy ddarpariaeth, Cymal 96 (Pleidleisiau Stryd) a Chymal 187 (Crwydraeth a chardota), a oedd wedi'u cynnwys yn y Bil, fel y'i cyflwynwyd, ac sy'n dod o dan gymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru:

#### Gwelliannau Gov 58 a Gov NC69

14. Roedd Cymal 96 (Pleidleisiau Stryd), fel y'i cyflwynwyd, yn gymal cadw lle ac o dan gymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru. Mae Gwelliant Gov 58 yn dileu Cymal cadw lle 96 (Pleidleisiau Stryd) o'r Bil.
15. Mae Gwelliant Gov NC69 yn gymal newydd a fydd yn cael ei osod ym Mhennod 4 o Ran 3 o'r Bil i gymryd lle'r cymal cadw lle presennol yng Nghymal 96. Mae'r cymal diwygio hwn yn nodi darpariaethau sylweddol mewn perthynas â Phleidleisiau Stryd. Er y bydd y darpariaethau

sylweddol sy'n cael eu mewnosod gan y cymal diwygio hwn yn estyn i Gymru a Lloegr, byddant yn berthnasol yn Lloegr yn unig. O'r herwydd, gan nad yw'r darpariaethau diwygio yn gymwys yng Nghymru a bod Cymal 96 wedi'i ddileu, nid yw'r ddarpariaeth hon bellach yn gofyn am gydsyniad deddfwriaethol o dan RhS29.

#### Gwelliannau Gov 1 a Gov 62

16. Mae Gwelliant Gov 1 yn dileu Cymal 190 (Cymal 187 yn y bil, fel y'i cyflwynwyd). Mae'r gwelliant felly'n dileu'r cymal cadw lle mewn perthynas â chrydraeth. Mae Gwelliant Gov 62 yn dileu cyfeiriad pellach yn y Bil at grwydraeth a chardota. Gan fod y Cymal wedi'i ddileu, nid yw'r ddarpariaeth hon bellach yn gofyn am gydsyniad deddfwriaethol o dan RhS29.

#### **Gwelliannau a gyflwynwyd i'r Bil i'w hystyried yng Ngham Adrodd Tŷ'r Cyffredin y bydd angen cydsyniad arnynt**

17. Fel y nodir isod, cafodd gwelliant Gov NC60 y Llywodraeth ei gyflwyno ar gyfer ei ystyried yng Ngham Adrodd Tŷ'r Cyffredin ac mae'n gwneud darpariaeth ar gyfer Cymru:

#### Gwelliant Gov NC60

18. Bydd y cymal newydd hwn yn gwneud diwygiadau technegol a chyfreithiol eboniadol i adran 211(10) (Rhan 11) o Ddeddf Cynllunio 2008. Mae'r gwelliannau yn estyn i Gymru a Lloegr, ac yn gymwys i'r ddwy wlad.
19. Rydym yn fodlon nad yw'r diwygiadau hyn yn ymwneud ag unrhyw un o'r materion a ddagedwir a nodir yn Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, ac nid yw unrhyw rai o'r cyfyngiadau a restrir yn Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn gymwys. Felly, mae'r diwygiadau hyn o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru. Mae Llywodraeth y DU yn cytuno â'r farn honno, ac yn gofyn am gydsyniad Senedd Cymru. Rwy'n argymhell ei roi.

#### **Safbwynt Llywodraeth Cymru ar y Bil fel y cafodd ei wella**

20. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y gwelliannau uchod a osodwyd gan Lywodraeth y DU ar 16 a 18 Tachwedd ar gyfer eu hystyried yng Ngham Adrodd Tŷ'r Cyffredin. Mae hefyd yn nodi na chytunwyd ar y gwelliannau eto.
21. Mae Gwelliannau Gov 58 a Gov NC69 yn dileu darpariaethau a oedd yn gymwys i Gymru. Roeddwn eisoes wedi argymhell y dylai Senedd Cymru beidio â rhoi ei chydsyniad iddynt yn fy LCM cyntaf a'r LCM diwygiedig. Felly, rwy'n cydnabod nad oes angen cydsyniad Senedd Cymru ar y darpariaethau hyn mwyach, ac rwy'n cefnogi'r ddau welliant gan eu bod yn mynd i'r afael â'm pryderon.

22. Mae Gwelliant Gov NC60 yn gwbl dechnegol ac esboniadol ei natur.

### **Goblygiadau ariannol**

23. Nid yw'r gwelliannau hyn yn creu goblygiadau ariannol i Gymru. Crynhoir effaith ariannol y Bil ar Gymru yn yr LCMs a osodwyd ar 28 Medi a 25 Tachwedd.

### **Casgliad**

24. Rwy'n argymhell bod y Senedd yn nodi gwelliannau Llywodraeth y DU i'r Bil sy'n dileu darpariaethau (cymalau 96 a 187) a oedd yn gymwys i Gymru yn y Bil fel y'i cyflwynwyd.

25. Rwy'n argymhell y dylid rhoi cydsyniad Senedd Cymru i Welliant NC60 Llywodraeth y DU, gan fod y gwelliant yn gwneud mân newidiadau technegol ac esboniadol yn unig. Lle gall Senedd Cymru wneud y newidiadau, mae eu natur dechnegol mân yn golygu yn fy marn i fod y budd a ddaw o wneud y newidiadau drwy'r Bil hwn yn drech na'r rhagdybiaeth polisi yn erbyn gwneud hynny.

**Julie James AS**  
**Y Gweinidog dros Newid Hinsawdd**  
**[30 Tachwedd] 2022**